LEG-08-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**
**Dyddiad:** 12 Mawrth 2002
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Christine Chapman | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Tom Middlehurst | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Glyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-07-2002 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor o'r drafodaeth a gafwyd yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Deddfau a gynhaliwyd ar 27$^{ain}$ Tachwedd a 15$^{fed}$ Ionawr, a arweiniodd at wahodd gynrychiolwyr o Gyd-bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Offerynnau Statudol a Dadreoli a'r Pwyllgor Diwygio Rheoliadol i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Deddfau. Pwrpas y cyfarfod hwn fyddai cyfnewid barn ar arferion a gweithdrefnau. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddent yn mynychu'r cyfarfod ar ddydd Mawrth 23$^{ain}$ Ebrill.

2.2 Gwahoddwyd yr aelodau, gan y Cadeirydd, i gynnig themâu posibl i'w trafod/materion o ddiddordeb arbennig y gellid eu codi yn y cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Pwyllgorau a enwyd uchod. Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno eu hawgrymiadau i Glerc y Pwyllgor. Cafwyd awgrym i drafod sut y sbardunir y broses o baratoi Gorchmynion, ac a oedd y broses honno'n cyfateb i weithdrefnau a ddefnyddir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, er y cydnabuwyd nad oedd y COS yn rhan o'r gwaith o baratoi offerynnau statudol.

**Eitem 3: Materion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC436 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.3 Codwyd y cwestiwn a fyddai'r trefniadau dirprwyo presennol yn cael eu cynnwys o dan yr OS newydd. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog priodol gan ofyn iddo/iddi egluro'r pwynt hwnnw. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

3.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC436 (Adroddiad).

**LC437 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Pellach) (Cymru) 2002**
3.5 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC437 (Adroddiad).

**LC438 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002**
3.8 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC438 (Adroddiad).

**LC439 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.11 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.12 Yn rheoliad 4(2) mae'r paragraff a fewnosodwyd (g) yn cyfeirio at "Rheoliadau 2001". Mae hwn yn anwybyddu'r pwynt bod y geiriad hwn yn cael ei fewnosod yn rheoliadau 2001. Dylid cyfeirio at "y Rheoliadau hyn".

3.13 Ystyrir y byddai'n llawer mwy boddhaol pe byddai rheoliad 5 yn fewnosodiad testunol yn Rheoliadau 2001. Fodd bynnag, os oes unrhyw reswm arbennig dros beidio â gwneud hyn, mae angen i'r cyfeiriad at "Reoliad 4(2)(g)" gael ei egluro er mwyn dangos ei fod yn gyfeiriad at reoliad 4(2)(g) yn Rheoliadau 2001.

3.14 Os mewnosodir y ddarpariaeth yn rheoliad 5 fel diwygiad testunol i Reoliadau 2001, fel yr awgrymir uchod, bydd rheoliad 2 yn ddiangen ac yn amhriodol oherwydd cyflawnir ei swyddogaeth gan reoliad 4(3) o Reoliadau 2001.

3.15 Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22. 13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi, os na chyflwynir memorandwm cywiriadau priodol, y gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r pwyntiau drafftio hyn. Gweithredwyd y cyfeirio o dan RhS 11.4 gan Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor.

3.16 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn yr adroddiad.

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC439 (Adroddiad).

**LC440 – Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.18 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC440 (Adroddiad).

**LC441 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2002/2003) (Cymru) 2002**
3.21 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.22 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.23 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC441 (Adroddiad).

**LC446 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.24 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.25 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn eu hadroddiad.

3.26 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC446 (Adroddiad).

**LC447 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2002**
3.27 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.28 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.29 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC447 (Adroddiad).

**LC442 – Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002**
3.30 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.31 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn eu hadroddiad.

3.32 Codwyd cwestiwn ynglŷn ag ymarferoldeb gwahaniaethu rhwng Coed Anis Japaneaidd a Tsieineaidd: a fyddai'r Awdurdod Iechyd Porthladdoedd yn gallu dweud y gwahaniaeth? Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog priodol i ofyn iddo/iddi egluro'r pwynt hwnnw. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC442 (Adroddiad).

**LC443 – Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Diddymu) (Rhif 2) (Cymru) 2002**
3.34 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.35 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.36 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC443 (Adroddiad).

**LC444 – Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.37 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.38 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.39 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC444 (Adroddiad).

**LC445 – Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 2002**
3.40 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.41 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.42 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC445 (Adroddiad).

**Eitem 4 Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr oddi wrth Jane Hutt AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 6 Chwefror 2002.**
**LC392 – Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i’r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001 Rhif 3985 (W.326)**
4.1 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ateb i lythyr 22 Ionawr 2002 at Jane Hutt AC Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y **Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i’r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001**. Ystyriodd y Pwyllgor bod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 gan eu bod yn cynnwys drafftio a oedd yn ddiffygiol ym marn y pwyllgor.

4.2 Yn rheoliad 1(2)(a) ymddengys fod yna ddiffyg drafftio gan nad oedd y term “y Ddeddf” yn cael ei ddefnyddio yn y rheoliadau yn ôl pob tebyg.

4.3 Wrth ymateb, nododd y gweinidog y derbyniwyd bod y diffiniad rhannol diangen o “y Ddeddf” yn rheoliad 1(2)(a) yn gyfystyr â mân wallau drafftio. Bwriad y ddarpariaeth oedd sicrhau bod cyfeiriadau at adran yn y rheoliadau at adrannau o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001. Cynigiodd y Gweinidog ymhellach y byddai newid y geiriau ”y Ddeddf honno” i “y Ddeddf” yn ffordd syml o gywiro’r gwall.

4.4 Ni wnaethpwyd cyfeiriad ychwaith yn y rhagarweiniad nac yn nhroednodyn (a) at adran 66. Ystyriwyd y dylai fod wedi cynnwys rhyw gyfeiriad at adran 66 i ddangos bod “rheoliadau” yn y diffiniad o “prescribed” yn adran 50(10) yn golygu, mewn perthynas â Chymru, rheoliadau a wnaethpwyd gan y Cynulliad. Roedd hyn yn berthnasol oherwydd ni wnaeth adran 50 ei hun enwi’r awdurdod a allai wneud rheoliadau.

4.5 Nododd y Gweinidog, er y byddai cyfeiriad wedi bod yn ddymunol ar gyfer gwybodaeth, nad oedd ei hepgor yn golygu bod angen cymryd camau adferol, er mwyn galluogi’r rheoliadau i gael eu dehongli a’u cymhwyso, er y nodwyd y mater ar gyfer y dyfodol.

4.6 Dylai paragraff (a) o reoliad 1(2) fod wedi darllen fel a ganlyn-
- “references to sections are to sections of the Health and Social Care Act 2001”.

Er mai mater bach yw hyn nad yw'n hawlio ei gywiro heblaw bod y rheoliadau yn cael eu newid am ryw reswm arall, y mae fodd bynnag yn ddiffyg drafftio. **Oherwydd hynny, rhaid i'r Pwyllgor ei adrodd yn swyddogol.**

4.7 O ran hepgor y cyfeiriad at adran 66, nid yw hyn unwaith eto yn fater sy'n galw am gymryd camau adferol. Serch hynny, caiff yr angen i gyfeirio at ddarpariaeth o'r fath ei egluro yn Arfer Offerynnau Statudol fel rhywbeth sy'n angenrheidiol ar gyfer enwi pwerau yn gynhwysfawr. **Yn unol â hynny, mae hwn yn fater drafftio y mae'n rhaid i'r Pwyllgor ei adrodd yn swyddogol.**

**Eitem 5: Unrhyw fusnes arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Ebrill 2002